# Ysgol Glan Morfa

# Hysbysiad Preifatrwydd

**Crëwyd: 2.10.25**

**Dyddiad Cyhoeddi: 2.10.25**

**EICH PREIFATRWYDD, EIN BLAENORIAETH**

## CYFLWYNIAD

Er mwyn cyflawni ein swyddogaethau statudol fel ysgol, mae'n angenrheidiol i ni gasglu a defnyddio (neu 'brosesu') data personol am unigolion gan gynnwys ein disgyblion presennol, ein cyn-ddisgyblion a darpar ddisgyblion a'u rhieni, eu gofalwyr, eu gwarcheidwaid (y cyfeirir atynt yn yr hysbysiad fel 'rhieni') ac unrhyw gysylltiadau mewn argyfwng.
Mae tryloywder yn bwysig iawn i ni, ac rydym yn anelu at fod yn agored ac yn onest gydag unigolion ynglŷn â sut rydym yn defnyddio eu data personol. Credwn os yw unigolion yn cael gwybod o'r dechrau pa ddata personol sydd gennym amdanynt, sut y bydd yn cael ei ddefnyddio, at ba ddiben ac â phwy y gellir ei rannu, bydd unigolion yn fwy hyderus bod eu data personol yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn ceisio esbonio a darparu gwybodaeth, ar lefel uchel, yn ymwneud â sut mae'r ysgol yn prosesu data personol yn gyffredinol. Yn benodol, mae'n darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â;

- 'Rheolydd data' y data personol a brosesir gan yr ysgol
- Sut i gysylltu â ni mewn perthynas â mater neu bryder diogelu data
- Y Swyddog Diogelu Data a sut y gellir cysylltu ag ef
- Categorïau’r data personol rydym yn ei brosesu
- Categorïau’r unigolion y mae eu data personol rydym yn ei brosesu
- Pam rydym yn prosesu'r data personol
- Ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu’r data personol
- O bwy a ble rydym yn cael y data personol
- Categorïau'r sefydliadau rydym yn rhannu’r data personol â nhw
- Am ba hyd rydym yn cadw’r data personol
- Eich hawliau diogelu data a'ch hawl i godi cwyn gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth

## Y RHEOLYDD DATA

Yr ysgol yw'r rheolydd data ar gyfer y data personol rydym yn ei brosesu, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys y data personol a brosesir gan y Corff Llywodraethu, y Pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth ac ati.
Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth fel rheolydd o dan rif cofrestru: **ZA049204**

## Y SWYDDOG DIOGELU DATA

Mae Cyngor Caerdydd yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data (SDD).

Gellir cysylltu â'r SDD mewn perthynas â materion diogelu data. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os oes angen i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn uniongyrchol, gallwch wneud hynny drwy e-bost i'r cyfeiriad e-bost canlynol; diogeludataysgolion@caerdydd.gov.uk

Rydym yn argymell, wrth gysylltu â'r SDD, eich bod yn anfon copi o'r ohebiaeth i'r ysgol fel y rheolydd data.

## CATEGORÏAU'R DATA PERSONOL RYDYM YN EI BROSESU

**Disgyblion**

Rydym fel arfer yn prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud â phob disgybl;

- Dynodwyr personol fel enw, rhif disgybl unigryw, dyddiad geni ac ati.
- Gwybodaeth gyswllt fel cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost ac ati.
- Nodweddion fel ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, man geni, cyfeiriadedd rhywiol, cymhwysedd prydau ysgol am ddim, statws plentyn sy'n derbyn gofal
- Gwybodaeth iechyd a meddygol berthnasol fel gwybodaeth feddyg, iechyd plant, iechyd deintyddol, alergeddau, iechyd golwg a chlyw, meddyginiaeth, gofynion deietegol ac ati.
- Gwybodaeth am bresenoldeb fel sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau, rhesymau dros absenoldebau ac unrhyw ysgolion blaenorol a fynychwyd ac ati.
- Gwybodaeth am asesu a chyrhaeddiad
- Gwybodaeth am drafnidiaeth rhwng y cartref a'r ysgol / trefniadau casglu
- Delweddau (wedi'u recordio gan deledu cylch cyfyng)
- Ffotograffau h.y. cylchlythyrau, gwefan

Efallai y byddwn yn prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol yn dibynnu ar anghenion y disgybl ac amgylchiadau unigol;

- Gwybodaeth am anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol
- Gwybodaeth ddiogelu fel gorchmynion llys, ymyrraeth broffesiynol
- Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiadau a gwaharddiadau
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â damweiniau a digwyddiadau
- Gwybodaeth sy'n ymwneud â chwynion yn yr ysgol.

**Rhieni a Chysylltiadau mewn Argyfwng**

Rydym fel arfer yn prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud â phob rhiant a chyswllt mewn argyfwng;

- Dynodwyr personol a manylion cyswllt fel enw, cyfeiriad, rhif ffôn, man gwaith (os yn berthnasol), cyfeiriad e-bost ac ati
- Perthynas â'r plentyn
- Efallai y byddwn yn prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol sy'n ymwneud â rhieni, yn dibynnu ar anghenion y disgybl ac amgylchiadau teuluol;
- Gwybodaeth ynghylch a yw rhiant yn aelod o'r lluoedd arfog
- Mynediad cyfreithiol i'r plentyn ac unrhyw orchmynion llys sy'n nodi hawl mynediad
- Gwybodaeth berthnasol am yr aelwyd/teulu fel brodyr a chwiorydd, trefniadau gofal plant ac ati
- Gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyfranogiad gwasanaethau cymorth e.e. gwasanaethau cymdeithasol, diogelu, anghenion dysgu ychwanegol ac ati
- Gwybodaeth ariannol e.e. yn ymwneud â thaliadau sy'n cael eu gwneud neu sy'n ddyledus i'r ysgol
- Gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â chwynion yn yr ysgol
- Delweddau - wedi'u recordio gan deledu cylch cyfyng

## PAM RYDYM YN PROSESU'R DATA PERSONOL

Rydym yn prosesu'r data personol i gyflawni ein swyddogaethau statudol fel ysgol. Mae hyn yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i'r gweithgareddau a’r swyddogaethau canlynol:

- derbyniadau
- dysgu disgyblion
- cofnodi, monitro, mynd i'r afael â ac adrodd ar gynnydd, cyrhaeddiad, perfformiad disgyblion ac ati
- cofnodi, monitro, mynd i'r afael â ac adrodd ar ymddygiad a gwaharddiadau disgyblion
- cofnodi, monitro, mynd i’r afael â ac adrodd ar bresenoldeb disgyblion
- atgyfeirio, adolygu, monitro a chefnogi mewn perthynas â darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- diogelu disgyblion
- rhoi gofal bugeiliol priodol
- cyflawni'r dyletswyddau statudol sydd arnom ar gyfer casglu data
- archwiliadau statudol
- gweinyddiaeth gyffredinol a chyllid
- llywodraethu ysgol
- trefnu a darparu ymweliadau addysgol
- trefnu/cydlynu trafnidiaeth rhwng y cartref a’r ysgol
- trefnu/cydlynu prydau ysgol
- trefnu/cydlynu clwb brecwast
- rheoli cwynion yn yr ysgol
- iechyd a diogelwch
- cofnodi ac adrodd damweiniau a digwyddiadau
- cofnodi gwybodaeth briodol mewn perthynas â hawliadau yswiriant
- dogfennu a chadw cofnod o ddigwyddiadau neu weithgareddau e.e. diwrnod chwaraeon, seremonïau gwobrwyo
- ymgysylltu â rhieni a chadw mewn cysylltiad mewn perthynas â darpariaeth addysg a chynnydd y disgybl
- cysylltu â rhieni mewn argyfwng
- adolygu ac asesu ansawdd ein darpariaeth addysg
- cynllunio adnoddau

## EIN SAIL GYFREITHLON AR GYFER PROSESU EICH DATA PERSONOL

O dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU), ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu’r data personol i gyflawni ein swyddogaeth statudol fel ysgol yw;

**Rhwymedigaeth Gyfreithiol (c)** - mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae’r rheolydd yn ddarostyngedig iddi.

**Tasg Gyhoeddus - Erthygl 6 (e)** - mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth ymgymryd ag awdurdod swyddogol a roddir i’r rheolydd.

**Budd sylweddol i’r cyhoedd - Erthygl 9 (2) (g) -** mae angen prosesu am resymau sydd o fudd sylweddol i’r cyhoedd, ar sail cyfraith Undeb neu Aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur â’r amcan a

geisir, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelu data ac yn gosod mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a buddiannau sylfaenol gwrthrych y data.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig (er enghraifft wrth recordio cyngherddau ysgol) byddwn yn dibynnu ar y canlynol;

**Cydsyniad - Erthygl 6(a) -** mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad i brosesu ei ddata personol at un neu fwy o ddibenion penodol.

Os mai cydsyniad yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, caiff ei geisio gan ddisgyblion neu rieni (yn dibynnu ar oedran y disgybl) cyn i'r data personol gael ei gasglu. Mae gan unigolion yr hawl i dynnu'r cydsyniad hwn yn ôl ar unrhyw adeg (gwelwch yr adran 'Eich hawliau diogelu data' isod i gael mwy o wybodaeth).

Yn llai cyffredin (er enghraifft mewn sefyllfa argyfwng meddygol) efallai y byddwn yn dibynnu ar y canlynol;

**Buddiannau allweddol i fywyd - Erthygl 6(d) ac Erthygl 9(c) -** mae angen prosesu er mwyn diogelu buddiannau allweddol i fywyd gwrthrych y data neu berson naturiol arall, lle mae gwrthrych y data yn methu rhoi cydsyniad yn gorfforol neu'n gyfreithiol.

## O BWY A BLE RYDYM YN CAEL Y DATA PERSONOL

Efallai y byddwn yn derbyn y data personol gan y categorïau canlynol o unigolion neu sefydliadau;

- Disgyblion
- Rhieni
- Cysylltiadau mewn Argyfwng
- Staff yr ysgol - Pennaeth, athrawon, cynorthwyydd addysgu, staff cymorth ac ati
- Corff Llywodraethu, Llywodraethwyr Ysgol Unigol, Paneli Annibynnol
- Gwasanaethau cymorth yr Awdurdod Lleol fel y Tîm Derbyn, y Gwasanaeth Arlwyo, y Gwasanaeth Trafnidiaeth, Tîm Data'r Awdurdod Addysg Lleol, y Gwasanaeth Presenoldeb a Lles, Mynediad a Chynhwysiant ac ati.
- Gwasanaethau cymorth busnes yr Awdurdod Lleol fel Cymorth Llywodraethwyr, yr Adran Yswiriant, Gwasanaethau Cyfreithiol ac ati
- Sefydliadau diogelu, gwasanaethau diogelu a gweithwyr diogelu proffesiynol a allai fod yn rhan o asesu, cefnogi neu ddarparu gwasanaethau i ddisgybl a'i deulu (e.e. Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, Byrddau Iechyd, gweithwyr iechyd proffesiynol ac ati)
- Sefydliadau'r sector preifat ac elusennau a allai fod yn rhan o gefnogi neu ddarparu gwasanaethau i ddisgybl a'i deulu (e.e. CAMHS)
- Y cyhoedd neu ymwelydd â'r ysgol

## GYDA PHWY RYDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

| Sefydliad | Rheswm | Sail Gyfreithlon |
|---|---|---|
| Ysgol/Coleg/Canolfan Ddydd y mae'r disgybl yn ei mynychu/fynychu wedyn | Parhad addysg | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 GDPR y DU) |
| Cyngor Caerdydd | Monitro darpariaeth addysg ac ymchwil i lywio penderfyniadau polisi a chyllid | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 GDPR y DU) |
| | Darparu cymorth TG | Prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad contract (Erthygl 6 GDPR y DU) |
| | Darparu Cymorth Iechyd a Diogelwch | Prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad contract (Erthygl 6 GDPR y DU) |
| Cyngor Caerdydd | Amddiffyn hawliadau yswiriant | Prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer buddiannau dilys (Erthygl 6 GDPR y DU) ac achosion cyfreithiol (Erthygl 9 GDPR y DU) |
| | Gweinyddu cymorth Anghenion Addysgol Arbennig | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU) |
| | At ddibenion diogelu | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, tasg gyhoeddus, neu fuddiannau allweddol i fywyd (Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU) |
| | Darparu gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU) |
| | Gweinyddu gwasanaeth arlwyo (h.y. cardiau cinio a data ôl bys biometrig arlwyo heb arian parod) | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU) |
| | Darparu ystadegau i fonitro addysg | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 GDPR y DU) |
| Llywodraeth Cymru (mwy o fanylion isod) | Darparu ystadegau i fonitro addysg | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol (Erthygl 6 GDPR y DU) |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Cyflawni Addysg | Rhannu gwaith meincnodi, gwaith gosod targedau a gwybodaeth ysgol gyda'r sefydliad i helpu i wella safonau addysg. Dyma wybodaeth a roddir hefyd i Lywodraethwyr | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu dasg gyhoeddus (Erthygl 6 GDPR y DU) |
| Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro | Darparu gwasanaeth iechyd ysgol | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthygl 6 GDPR y DU); iechyd y cyhoedd (Erthygl 9 GDPR y DU) |
| | Dibenion diogelu | Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, tasg gyhoeddus, neu fuddiannau allweddol i fywyd (Erthyglau 6 a 9 GDPR y DU) |
| Gyrfa Cymru | Rhennir gwybodaeth yn y ffyrdd/amgylchiadau canlynol: • Manylion personol/anghenion/galluoedd i gefnogi ceisiadau coleg • Enwau a manylion cyswllt disgyblion pan fydd rhieni yn gofyn am gyswllt gan Ymgynghorydd Gyrfaoedd. Yn fwyaf aml, mae gan Gyrfa Cymru fanylion cyswllt y disgybl/teulu yn barod | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthygl 6 GDPR y DU) o dan Ddeddf Addysg 1997 (A44). |
| Gwasanaethau Ymyrraeth Therapi | Staff o wasanaethau eraill (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol a meddygon) sy'n gweithio gyda phlentyn fel y gellir mabwysiadu dull amlbroffesiynol ar gyfer ceisio deall ymddygiadau problemus ac at ddibenion rheoli risg | Cydymffurfio â thasg gyhoeddus (Erthygl 6 y GDPR); iechyd y cyhoedd (Erthygl 9 GDPR y DU) |

**Rhannu gwybodaeth â Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth am ddisgyblion yn uniongyrchol gan ysgolion trwy gasgliadau data statudol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Casglu data ôl-16
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casglu data cenedlaethol (CDC)
- Casglu gwybodaeth am bresenoldeb
- Casglu data am Brofion Cenedlaethol Cymru (PCC)

Yn ogystal, gall Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol hefyd yn derbyn gwybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau arholiadau cyhoeddus a data presenoldeb ar lefel disgyblion unigol. Mae'r wybodaeth hon yn dod naill ai gan ysgolion neu gyrff dyfarnu fel CBAC.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer ymchwil ac at ddibenion ystadegol. Mae'r holl ddadansoddi'n cael ei gynnal mewn ffordd sy'n sicrhau nad oes modd adnabod plant a

phobl ifanc unigol. Mae'r data'n cael ei ddefnyddio i lywio a gwella polisi addysg, ac i fonitro perfformiad y gwasanaeth addysg ar y cyfan.

Mae mwy o fanylion am sut mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio data personol, gan gynnwys yr hysbysiadau preifatrwydd diweddaraf ar gael ar dudalennau ystadegau ac ymchwil Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil ac ym Mholisi Preifatrwydd Llywodraeth Cymru www.llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-llywodraeth-cymru.

## PROSESYDDION DATA

Ystyr prosesydd data yw unrhyw berson neu sefydliad sy'n prosesu'r data ar ran rheolydd. Mae'r ysgol yn defnyddio nifer o brosesyddion data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Categorïau'r prosesyddion data rydym yn eu defnyddio yw;

- Cyflenwyr systemau TG
- Cyflenwyr systemau trosglwyddo data diogel TG
- Cyflenwyr systemau cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol
- Cyflenwr system asesu risg (sy'n ymwneud ag ymweliadau addysgol)

Mae ein prosesyddion data yn gweithredu ar ein cyfarwyddyd yn unig. Ni allant wneud unrhyw beth gyda'ch data personol oni bai ein bod wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt ei wneud. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn ei defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddant yn ei storio'n ddiogel ac yn ei gadw am y cyfnod rydym yn ei gyfarwyddo. Os oes gennych ymholiad penodol yn ymwneud â'n prosesyddion data, cysylltwch â'r Arweinydd Diogelu Data.

## CAIS AM WYBODAETH

Gall yr holl wybodaeth a gedwir gan yr ysgol fod yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018).

Os bydd yr wybodaeth a roddwch yn destun cais o'r fath, lle y bo'n bosib bydd yr ysgol yn ymgynghori â chi pan gaiff ei rhyddhau. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn ôl os yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu hynny.

## AM BA HYD RYDYM YN CADW EICH GWYBODAETH

Yn unol ag egwyddor cyfyngu storio Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, mae cofnodion yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Dim ond data personol sy'n berthnasol i'r cofnod sy'n cael ei gadw am y cyfnod cadw cyfan (e.e. dogfennau sy'n cynnwys asesiadau, penderfyniadau, canlyniadau ac ati). Mae gwybodaeth nad oes ganddi werth hirdymor na thystiolaethol yn cael ei dinistrio'n rheolaidd yn ôl y drefn arferol.

Mae cofnodion sy'n cael eu cadw yn cael eu cadw yn unol â'r canllawiau a nodir yn yr Amserlen Gadw a gynhwysir yn Pecyn Cymorth y Gymdeithas Rheoli Cofnodion Gwybodaeth ar gyfer Ysgolion. Ar ôl i'r cyfnod cadw ddod i ben, mae gwybodaeth yn cael ei dinistrio'n ddiogel ac yn barhaol.

**Manylion marchnata**

Os ydych wedi cydsynio i'ch manylion cyswllt gael eu defnyddio at ddibenion marchnata, byddwch wedi cael manylion y marchnata yr hoffai'r ysgol ei gynnal, ynghyd ag unrhyw opsiynau fel sut yr hoffech i rywun gysylltu â chi ynglŷn â hyn. Gallwch dynnu eich cydsyniad i farchnata yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â'r ysgol.

## EICH HAWLIAU

Eich Hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018

Mae gennych sawl hawl o ran eich data personol:

**Hawl i gael gwybod** – Mae gennych yr hawl i wybod sut mae eich data yn cael ei gasglu, ei ddefnyddio, ei storio a'i ddiogelu.
**Hawl i fynediad** – Gallwch ofyn am gopi o'r data personol a gedwir amdanoch chi. Efallai y bydd rhywfaint o wybodaeth yn cael ei chadw yn ôl am resymau cyfreithiol.
**Hawl i gywiro** – Gallwch ofyn am i ddata anghywir neu anghyflawn gael ei gywiro.
**Hawl i ddileu** – Gallwch ofyn i'ch data gael ei ddileu mewn rhai achosion, oni bai bod yn rhaid ei gadw yn ôl y gyfraith.
**Hawl i gyfyngu ar brosesu** – Gallwch gyfyngu ar sut mae eich data yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd penodol.
**Hawl i gludadwyedd data** – Gallwch ofyn am eich data mewn fformat y gellir ei rannu'n hawdd â sefydliad arall.
**Hawl i wrthwynebu** – Gallwch wrthwynebu i'ch data gael ei ddefnyddio, yn enwedig ar gyfer marchnata neu broffilio.
**Hawliau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau awtomataidd** - Gallwch herio penderfyniadau a wneir heb gyfranogiad dynol, fel proffilio.

**Plant a Phobl Ifanc**

Mae gan blant hawliau o dan gyfreithiau diogelu data hefyd. O 12 oed a hŷn, maent fel arfer yn cael eu hystyried yn ddigon aeddfed i ddeall a defnyddio'r hawliau hyn.

Gall plentyn ofyn am ei ddata ei hun gan sefydliad (fel ysgol). Os yw rhiant neu ofalwr eisiau gofyn am ddata ar ran plentyn, rhaid iddo:

- Ddangos prawf adnabod
- Cyflwyno tystiolaeth o gyfrifoldeb rhiant
- Cael caniatâd gan y plentyn (fel arfer yn ysgrifenedig)

I weithredu eich hawliau, cysylltwch ag **Ysgol Glan Morfa** fel y nodir ar frig y ddogfen hon. Bydd copi o unrhyw gais hawl unigol a'ch ymateb yn cael eu cadw am 3 blynedd.

## GWEITHDREFN GWYNO

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae’r ysgol wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch ag (enw’r ysgol) gan amlinellu eich pryderon yn y lle cyntaf. Mae'r Swyddog Diogelu Data yn cael ei gontractio gan yr ysgol i Gyngor Caerdydd. Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data yr ysgol drwy e-bost yn diogeludataysgolion@caerdydd.gov.uk

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i’r Comisiynydd Gwybodaeth, sy’n gorfodi ac yn goruchwylio’r Ddeddf Diogelu Data yn y DU, asesu a yw prosesu’r wybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol. Mae mwy o wybodaeth am eich hawliau ar gael gan: https://cy.ico.org.uk/.

## CRYNODEB O'R HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Ysgol Glan Morfa yn prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a'u teuluoedd i gefnogi dysgu disgyblion a monitro cyrhaeddiad, i ddarparu gofal bugeiliol, ac i gadw plant yn ddiogel. Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth bersonol i fodloni'r dyletswyddau statudol a osodir arnom gan Lywodraeth Cymru, i weinyddu teithiau a gweithgareddau ysgol opsiynol, ac i ddarparu'r gwasanaeth arlwyo ysgol.

Mae'r ysgol yn cymryd ei chyfrifoldebau o dan gyfraith diogelu data o ddifrif, a bydd yn storio ac yn defnyddio'r holl wybodaeth bersonol yn ddiogel, gan ei dileu pan nad oes ei hangen mwyach. Gellir rhannu gwybodaeth bersonol yn ddiogel at ddibenion clir gyda sefydliadau eraill fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Llywodraeth Cymru, neu bartneriaid allanol eraill e.e. Awdurdodau Lleol eraill, Byrddau Iechyd, Gyrfa Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru sy'n darparu gwasanaeth i ddisgyblion/teuluoedd. Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth a'r hawl i gwyno.

I gael mwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'n gwefan: (www.ysgolglanmorfa.co.uk)